

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd ar nos
Wener, 7 Ionawr 2011 yng Nghanolfan Rhyd Ddu**

Presennol: Presennol: Arwel (AR) – Cadeirydd, Guto (GE), Maldwyn (MPR), John (JP), Rhys (RD), Dai (DT), Alwen (AW), Iolo (IPR), Anita (AD), Sian (SS).

Ymddiheuriadau: Iolo, Gareth, Marion

1.	COFNODION	Gweithredu
	Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref, 2010	
2.	<p>MATERION YN CODI O DDAMWAIN LLEW Adroddwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan deulu Llew yn dilyn y ddamwain yn gwneud nifer o awgrymiadau ynglŷn â threfniant teithiau'r clwb.</p> <p>Penderfynwyd</p> <p>Gofyn i MPR gysylltu yn ôl a'r teulu yn diolch am eu awgrymiadau ac yn nodi'r camau canlynol yr oedd y Pwyllgor wedi penderfynu arnynt.</p> <p>Y dylai arweinyddion teithiau gael ffurflen bwrpasol i bawb a oedd yn mynychu'r daith i nodi enw a rhif ffôn person cyswllt y gellir cysylltu â hwy pe byddai unrhyw fath o ddamwain.</p> <p>Gofyn i IaG roi template ar gyfer y ffurflen yma ar y safle We fel y gall arweinwyr ei lawr lwytho cyn eu taith</p> <p>Er mwyn cadw cyfrinachedd dylai'r ffurflenni hyn gael eu dinistrio ar ôl cwblhau'r daith</p> <p>Gofyn i arweinyddion ar dop y ffurflen yma rhoi ryw fath o syniad o beth fydd y daith ar y diwrnod fel bod pawb yn ymwybodol o'i natur.</p> <p>Bod y rhaglen weithgareddau hefyd yn cynnwys ychydig o wybodaeth am y daith megis amcangyfrif o bellter ac os yw yn anodd iawn, anodd neu hamddenol o safbwynt mynd ar dir serth /gwlyb neu ar lwybrau gwastad a.y.b.</p> <p>Pwysleisio i aelodau bod yna gyfrifoldeb arnynt hwythau hefyd o safbwynt iechyd a diogelwch ac y dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Os oes ganddynt unrhyw gyflwr meddygol a fyddai yn gallu effeithio ar driniaeth feddygol e.e. asthma, dylent gario cerdyn sy'n nodi hynny • O gofio gweithgareddau'r clwb, dylent bob tro ddod ar deithiau hefo dillad ag offer addas • Eu hatgoffa fod trefniadau yn hawsach os ceir rhybudd ymlaen llaw eu bod am fynychu taith. 	<p style="text-align: center;">MPR</p> <p style="text-align: center;">IaG</p> <p style="text-align: center;">MPR</p>
3.	<p>EISTEDDFOD GENEDLAETHOL – WRECSAM 2011 Cytunwyd y byddai'n fuddiol i'r Clwb gael presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan ei fod yn ffordd o godi proffil y clwb ac i geisio denu aelodau. Roedd yna gryn waith angen ei wneud i'w drefnu a byddai angen dechrau ar hyn yn fuan. Roedd hefyd angen cael hyd i gyrff eraill a fyddai'n barod i rannu'r gost o logi stondin ar y maes.</p>	

	<p>Penderfynwyd Cysylltu â'r partneriaid arferol sef Cyngor Mynydda Prydeinig a Phartneriaeth Awyr Agored i ofyn a yr ydynt yn barod i rannu'r stondin (a'r gost).</p>	IPR
	<p>Dylid hefyd ystyried os oes cyrff eraill yn y maes mynydda/cerdded o ardal Ogledd Ddwyrain Cymru a fydda hefo diddordeb mewn rhannu'r stondin. Ni ellir symud ymlaen heb gael partneriaid i rannu'r gost.</p>	IPR
	<p>Gofyn a fyddai Gareth a Gaenor yn barod i gydgorio'r trefniadau ar gyfer y stondin. Dylid ystyried hefyd gofyn i rai o aelodau'r clwb a oedd yn byw yn ardaloedd cyfagos megis Rhuthun a Dinbych os byddent yn barod i helpu.</p>	IPR
	<p>Nodi y bydd RD yn barod i rannu ei brofiadau o drefnu'r stondin yn yr Eisteddfod a gynhaliwyd llynedd</p>	RD
	<p>Cysylltu â'r Eisteddfod i weld beth oedd eu telerau ac amserlen. Nodwyd y gellid cael gwybodaeth o'u safle We.</p>	MPR
	<p>Edrych i mewn i'r posibilrwydd os gellid cael nawdd gan gwmnïau fel Cotswolds/Joe Brown</p>	IPR
	<p>Gellid cael rhyw fath o ddigwyddiad yn digwydd yn y stondin yn ystod yr wythnos. Codwyd y posibilrwydd o gael Tim Achub Mynydd yno. Os gwneir hyn bydd rhaid ystyried cael ei gofnodi yn rhaglen yr eisteddfod</p>	
	<p>Bydd angen trefnu gwirfoddolwyr i weithio yn y stondin a hefyd i gael taith yn yr ardal yn ystod yr wythnos.</p>	
4.	<p>CYDWEITHIO GYDA SEFYDLIAD Y GALON</p> <p>Adroddwyd bod Mabon ab Gwynfor wedi cysylltu ar ran Sefydliad y Galon yn dweud fod y sefydliad yn 50 mlwydd oed eleni a'u bod am drefnu rhaglen o weithgareddau i ddathlu hyn ac i geisio codi arian ar yr un pryd. Roeddynt yn gofyn a fyddai'r Clwb Mynydda yn fodlon cydweithio a'r sefydliad drwy efallai gynnal teithiau ar y cyd. Roedd y sefydliad yn gweld fod y clwb yn annog gweithgareddau o fudd i'r ieuchyd ac felly yn ein gweld fel partner delfrydol ar gyfer cydweithio a chodi proffil y ddau gorff.</p> <p>Penderfynwyd gofyn i RD gysylltu yn ôl a Mabon yn dweud bod y clwb yn barod i gydweithio hefo'r nhw ac yn awgrymu fod y daith a drefnir yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn daith a ellir ei drefnu mewn cydweithrediad a Sefydliad y Galon.</p>	RD
5.	<p>AELODAETH Y CLWB</p> <p>Adroddwyd er gwybodaeth y bydd yr ysgrifenyddion yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o greu un ffeil aelodaeth ganolig ar y safle We. Byddent ond yn symud ymlaen hefo hyn os gellid sicrhau bod modd i ddiogelu'r ffeil yma drwy gyfyngu mynediad iddi drwy ddefnyddio cyfrineiriau a.y.b.</p> <p>Ystyriwyd ar gais y Cadeirydd os gellid cael trefn o gael ffi ar gyfer aelodaeth teulu o'r clwb.</p> <p>Penderfynwyd er mwyn ceisio annog aelodaeth teuluoedd y dylid cael ffi ar gyfer aelodaeth teulu ond gan fod rhan o ffi'r yn cael ei drosglwyddo i'r CMP ar gyfer yswiriant, dylid yn y lle cyntaf sicrhau faint fyddai'n rhaid trosglwyddo i'r CMP ar gyfer aelodaeth plant cyn pennu'r union ffi ar gyfer plant o dan 16.</p> <p>Ystyried ar gais IPR beth ddylai aelodau newydd gael wrth ymaelodi hefo'r clwb.</p> <p>Penderfynwyd y dylent gael llythyr yn eu croesawu i'r clwb, yn eu cyfeirio at y safle</p>	IPR

	<p>Penderfynwyd gofyn i MPR gysylltu â theulu Llew i ofyn a fyddent yn cytuno i'r teithiau noddedig a drefnir cael eu cynnal yn enw Llew.</p>	MPR
12	<p>RHAGLEN GWEITHGAREDD NESAF Y CLWB. Adroddodd MPR ei fod yn gweithio ar baratoi rhaglen o weithgareddau ar gyfer y clwb am y cyfnod Mawrth i ddiwedd Gorffennaf 2011.</p> <p>Penderfynwyd gofyn i bawb yrru eu hawgrymiadau a rhestrau i MPR cyn gynted a bo modd.</p>	